TECHNIQUEST




# Adnoddau Cefnogi

**Techniquest**
**Stryd Stuart**
**Caerdydd**
**CF10 5BW**

**Ffôn: 029 20 475 475**
**www.techniquest.org**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Crynodeb




Mae dwy ran i'r sesiwn hon:


- 30 munud o sioe theatr wyddoniaeth - Disgyblion yn cymryd rhan mewn sioe theatr wyddoniaeth ryngweithiol yn archwilio deunyddiau, yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng deunyddiau gwneud a naturiol, gwahanol briodweddau a'r defnydd gwahanol a wneir o ddeunyddiau.
- 30 munud yn archwilio'r arddangosfa – mae disgyblion yn derbyn yr her o ymchwilio'r arddangosfa ac adnabod eitemau o'i mewn sydd yn dangos y geiriau allweddol ddefnyddwyd yn rhan gyntaf y sioe. Rhoddir gamerau i'r athrawon i dynnu lluniau o ymchwiliadau'r disgyblion.

## Hawlfraint

Gall athrawon atgynhyrchu'r deunyddiau canlynol heb dorri hawlfraint, cyn belled y gwneir copïau ar gyfer defnydd yn eu hysgolion eu hunain. Rhaid cael caniatâd Techniquest cyn atgynhyrchu'r deunyddiau hyn at unrhyw bwrpas arall.

## Datblygu Sgiliau


Mae'r gweithgareddau yn y sioe a'r adnoddau perthnasol yn cynnwys y sgiliau canlynol:



Datblygu Cyfathrebiad | Datblygu Rhif | Datblygu Meddwl | Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Dros y dudalen mae yna gynghorion ar wneud y mwyaf o'r ffotograffau a dynnwyd gan eich disgyblion yn ystod eu hymweliad â Techniquest. Mae yna hefyd 12 ffotograff o staff Techniquest yn yr arddangosfa y gallwch eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r cysyniadau allweddol a ddangosir.









Dylai disgyblion ddewis un ffotograff o'r rhai a dynnwyd yn ystod yr ymweliad. Dylent egluro i weddill y dosbarth pa gysyniadau allweddol yn y sioe y mae'r ffotograff yn eu dangos a sut. Dylai'r disgyblion gymharu'r lluniau a ddewiswyd.

Dylai'r disgyblion ddewis un arddangosyn yr oeddent wirioneddol wedi mwynhau ei ddefnyddio'n ystod eu hymweliad. Yna dylent greu llun ohono a heriwch y disgyblion i ddynodi pa gysyniad allweddol o'r sioe y mae'n ei ddangos a sut.

Rhowch gamera ac un o'r cysyniadau allweddol i bob grŵp. Heriwch y disgyblion i fforio drwy'r ysgol i ganfod enghreifftiau o'u cysyniad allweddol a thynnu llun ohono. Yna gall y disgyblion greu cyflwyniad i weddill y dosbarth.

Heriwch y disgyblion i fforio drwy'r ysgol, y tu mewn a thu allan, i ganfod cymaint o enghreifftiau â phosibl o'r cysyniadau allweddol. Fel her ychwanegol, rhowch derfyn amser o 5 munud. Yna dylai disgyblion drafod eu rhestrau gyda gweddill y dosbarth.

# Cwestiynau Enghreifftiol

Pwy dynnodd y ffotograff hwn?

Ffotograff o beth yw hwn?

Pa air allweddol ydych chi'n ei ddangos yn y ffotograff hwn?

Sut ydych yn dangos y gair allweddol hwn?

A oes yna eiriau allweddol eraill y gellid eu defnyddio i ddisgrifio'r ffotograff?

Sut mae'r ffotograff yn dangos y gair allweddol?

A oes unrhyw un arall wedi tynnu llun o hwn er mwyn dangos y gair allweddol hwn?

Allwch chi weld unrhyw beth yn yr ystafell hon fyddai'n dangos y gair allweddol hwn?


Pa eiriau allweddol eraill allai'r ffotograff hwn eu dangos?

Beth arall y gallech fod wedi tynnu llun ohono i ddangos y gair allweddol hwn?

TECHNIQUEST



TECHNIQUEST




Gweld yn Twyllo
Rhowch gynnig ar hyn






TATA STEEL




TECHNIQUEST








Heartbeat Wales Charity
Curiad Calon Cymru
urwch Eich Calon
Beat Your Heart
Curwch Eich Calon



**Dan gyda 'Traed sy'n Dawnsio':**

- Ymarfer corff – wrth i Dan ddawnsio.
- Curiad y galon – bydd calon Dan yn curo'n gynt wrth iddo ddawnsio.
- Mae Dan yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Lynda ar y grisiau:**

- Ymarfer corff.
- Curiad y galon – bydd calon Lynda yn curo'n gynt wrth iddi ddefnyddio'r grisiau.
- Mae Lynda yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Kate gyda 'Gweld yn Twyllo':**

- Synhwyrau – mae Kate yn profi ei synnwyr gweld gyda'r rhith optegol yma.
- Mae Kate yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Dan gyda 'Dysgl Sibrwd':**

- Synhwyrau – mae Dan yn defnyddio ei synnwyr clywed.
- Mae Dan yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**James gyda 'Ffenestr Pelydr-X':**

- Sgerbwd – yn cael ei ddangos yn y llun pelydr-X.
- Mae James yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Liz a'r 'Gwn Pop':**

- Ymarfer - mae Liz yn ymarfer ei chorff wrth iddi dynnu ar y rhaff.
- Mae Liz yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a'i synhwyrau i archwilio.

**Paul gyda 'Adeiladwr Corff':**

- Mae'r arddangosyn yn dangos y sgerbwd, yr organau a'r cyhyrau.
- Mae Paul yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Cat gyda 'Llafariaid Lleisiol':**

- Mae Cat yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Daf gyda 'Pôs y Perfedd':**

- Mae'r arddangosyn yn dangos rhannau o'r sgerbwd a'r organau.
- Mae Daf yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Freya gyda 'Codi Pwysau':**

- Ymarfer corff – Mae Freya yn ymarfer wrth iddi dynnu'r rhaff.
- Mae Freya yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Roy gyda 'Curwch Eich Calon':**

- Curiad calon – mae'r arddangosyn yn dangos cyfartaledd curiad y galon wrth wneud gwahanol weithgareddau.
- Mae'r gweithgareddau yn cynnwys ymarfer corff.
- Mae Roy yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

**Amanda gyda 'Cymryd Lliwiau i Ffwrdd':**

- Synhwyrau – mae Amanda yn defnyddio ei synnwyr gweld i weld sut mae'r llun yn newid.
- Mae Amanda yn defnyddio ei sgerbwd, organau, cyhyrau a synhwyrau i archwilio.

## Cysyniadau Allweddol

**Ysgerbwd** **Organau**

**Cyhyrau** **Synhwyrau**

**Cyfradd curiad y galon**


**Ymarfer corff**

**Cwestiwn bonws:**

Pa rannau o'r corff ydych chi'n eu defnyddio wrth archwilio?

# Olwyn TASC

Meddwl yn Weithredol mewn Cyd-destun Cymdeithasol




**Sialens**

Roedd stumog Dafydd yn rymblo. Roedd yn cwyno wrth Roy, "Rydw i eisiau bwyd gymaint. Y cwbl sydd gen i ginio yw brechdan." Meddai Roy, "Dwi'n meddwl bod brechdannau yn flasus ac mae nhw'n gallu bod yn iachus iawn." Meddyliodd Dafydd am hynny am ychydig yna gofynnodd, "Sut fedra i wneud brechdan iachus?"

- Ymchwiliwch gwestiwn Dafydd.
- Crewch fersiynau gwahanol o'ch brechdan chi yna gwnewch brawf blasu.



**Casglu/Trefnu**

Dyma'r man cychwyn ar gyfer y gweithgaredd. Bydd disgyblion yn casglu eu holl wybodaeth am y pwnc yn eu cof gweithio. Ar y cam hwn mae'n bosibl nodi'r hyn y mae disgyblion eisoes yn ymwybodol ohono ac unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth. Mae hefyd yn bosibl dechrau gwahaniaethu rhwng disgyblion.

Gall cwestiynau i'w holi ar y cam hwn gynnwys:

- Beth rydych yn ei wybod am hyn?
- Ymhle rydych wedi dod ar draws hyn o'r blaen?
- Pa wybodaeth sydd gennych?
- Faint rydych yn ei ddeall?
- Pa gwestiynau y mae angen i chi eu gofyn?

**Nodi**

Bydd disgyblion yn ystyried a ydynt yn deall y dasg i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol ganddynt. Gall disgyblion hefyd bennu'r meini prawf llwyddiant ar gyfer y gweithgaredd ar y cam hwn.

Gall cwestiynau i'w holi i ddisgyblion ar y cam hwn gynnwys:

- Beth yw'r dasg?
- Beth yw eich nodau?
- Beth yw'r rhwystrau?
- Beth y mae angen i chi ei wybod?
- Beth y mae angen i chi ei wneud i gyflawni hyn?

**Cynhyrchu**

Mae hwn yn gam creadigol ac agored. Gall disgyblion gymryd rhan mewn sesiynau taflu syniadau. Mae pob syniad ynglŷn â sut i gyflawni'r dasg yn ddilys ar y cam hwn.

Gall cwestiynau i'w holi i ddisgyblion ar y cam hwn gynnwys:

- Faint o syniadau y gallwch ddod o hyd iddynt?
- Pwy all eich helpu?
- Ymhle y gallwch gael rhagor o wybodaeth?
- Beth mae pobl eraill yn ei feddwl?
- Oes yna ffordd arall o wneud hyn?

**Penderfynu**

Mae hon yn broses resymegol a synhwyrol ar gyfer ochr chwith eich ymennydd, yn wahanol i'r cam blaenorol. Bydd disgyblion yn ystyried cyfyngiadau amser, adnoddau sydd ar gael, iechyd a diogelwch, yn ogystal ag a yw'r syniad yn bodloni'r briff wrth wneud penderfyniadau.

Gall cwestiynau i'w holi i ddisgyblion ar y cam hwn gynnwys:

- Pa syniadau sy'n bwysig?
- Pa un yw'r syniad gorau?
- Beth fydd yn digwydd os...?
- Beth yw eich cynllun?
- Beth arall sydd angen i chi ei wneud?

## Gweithredu

Bydd disgyblion yn profi eu syniadau mewn ymgais i fodloni meini prawf y dasg. Mae gwaith tîm yn allweddol i lwyddiant ar y cam hwn. Gall disgyblion weithio i gynllun strwythuredig. Mae'r cam hwn yn canolbwyntio ar feddwl cymaint â phosibl a chofnodi cyn lleied â phosibl. Mae'r cam hwn yn ymwneud â datblygu meddwl.

Gall cwestiynau i'w holi i ddisgyblion ar y cam hwn gynnwys:

- Sut rydych yn gwneud hyn?
- Sut rydych yn gwirio eich cynnydd?
- Ydych chi'n gwneud pethau'n gywir?
- Yw eich cynllun yn gweithio?
- Beth fyddwch yn ei wneud nesaf?

## Gwerthuso

Dylai disgyblion fod yn realistig am eu cyflawniadau a nodi'r camau nesaf ar gyfer gwella. Mae hunanwerthuso a gwerthuso cyfoedion yn elfennau allweddol o'r broses hon.

Gall cwestiynau i'w holi i ddisgyblion ar y cam hwn gynnwys:

- Beth rydych wedi'i wneud?
- Sut hwyl gawsoch chi?
- Beth allech chi ei wneud yn well?
- A wnaethoch chi ddatrys y broblem?
- A wnaethoch chi weithio'n dda yn eich grŵp?

## Cyfathrebu

Bydd y disgyblion yn cyflwyno eu canfyddiadau i gynulleidfa; gellid gwneud hyn yn y dosbarth, yn yr ysgol neu'r tu allan. Gall y cam hwn feithrin cymhelliant y disgyblion a'u hannog i ymgysylltu.

Gall cwestiynau i'w holi i ddisgyblion ar y cam hwn gynnwys:

- Pwy fyddwch yn cyflwyno'r wybodaeth iddynt?
- Sut byddwch yn trosglwyddo neu'n cyflwyno'r wybodaeth?
- Beth y byddwch yn ei ddweud?
- Sut y byddwch yn esbonio?
- Sut y byddwch yn ennyn diddordeb eraill?

## Dysgu o Brofiad

Mae'r cam olaf hwn yn canolbwyntio ar fetawybyddiaeth; 'meddwl am feddwl' yw hyn. Ar y cam hwn bydd disgyblion yn myfyrio ar eu dysgu ac yn ei drafod. Gall y cam hwn wella effaith y profiadau dysgu yn sylweddol.

Gall cwestiynau i'w holi i ddisgyblion ar y cam hwn gynnwys:

- Beth rydych wedi'i ddysgu?
- Sut rydych wedi newid?
- Beth rydych yn ei feddwl a sut rydych yn teimlo nawr?
- Sut y gallwch ddefnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu?
- Sut y byddech yn defnyddio hyn eto?

## Ffotograffau Cysyniad

Datblygwyd y 'ffotograffau cysyniad' hyn i hyrwyddo trafodaeth ac annog meddwl gwyddonol. Maent yn dangos pobl wahanol yn trafod sefyllfa o fywyd bob dydd ac yn cynnig esboniadau gwahanol am yr hyn sy'n digwydd. Mae hyn felly yn ffordd dda o ddangos sut y gellir defnyddio gwyddoniaeth mewn bywyd bob dydd. Mae pob ffotograff cysyniad yn dangos un o arddangosion Techniquest neu sefyllfa o fywyd bob dydd sy'n gysylltiedig â phwnc gwyddonol. Gellir gofyn cwestiynau agored i ysgogi meddwl a thrafodaeth. Dylid trin syniadau a safbwyntiau pob disgybl yn hafal.

## Lluniwch eich darluniau eich hunain

I wneud hyn:

- Defnyddiwch gyd-destunau o fywyd bob dydd sy'n gyfarwydd i'r disgyblion.
- Nodwch dri neu bedwar datganiad arall i'w drafod.
- Defnyddiwch ddatganiadau cadarnhaol yn hytrach na rhai negyddol.
- Edrychwch ar waith ymchwil ar gamsyniadau cyffredin ymhlith disgyblion i gael arweiniad ar ddatganiadau.
- Dylech gynnwys safbwyntiau sy'n wyddonol dderbyniol.

### Llun 1


Gellir holi'r cwestiynau canlynol:


- Ydych chi'n cytuno ag unrhyw un yn y llun hwn? Pwy? Pam?
- Ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un yn y llun hwn? Pwy? Pam?
- Allwch chi feddwl am unrhyw esboniadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yma?
- Sut allwn ni ganfod pa safbwynt yw'r mwyaf addas?
- A yw'n bosibl bod mwy nag un safbwynt yn addas yma?
- Pam fod safbwyntiau gwahanol gan ddisgyblion gwahanol yn eich barn chi?

### Llun 2

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, dim ond un swigen siarad sydd wedi'i llenwi. Gellir holi'r cwestiynau agored canlynol:

- Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn? Pam?
- Allwch chi feddwl am unrhyw esboniadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yma? Dylid llenwi'r rhain ar y darlun.
- Bellach, mae gennym rai esboniadau. Pa rai ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â hwy? Pam?
- A yw'n bosibl bod mwy nag un safbwynt yn addas yma?


Credaf fod y bwyd yn mynd i mewn i'ch gwaed.
Daw'r bwyd i gyd allan wrth i chi fynd i'r toiled.
Credaf ei fod yn mynd i mewn i'ch cyhyrau.


Mae gan oedolion fwy o esgyrn na phlant.

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:**

**Ystod**
**Annibyniaeth a Chyd-ddibyniaeth Organebau**

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i astudio:

- Enwau, lleoliad, gwaith a maint cymharol prif organau'r corff dynol.
- Yr amrywiaeth o fwydydd ac ymarfer corff i iechyd dynol.
- Effaith rhai cyffuriau ar y corff dynol, e.e. acohol, toddyddion, tobaco.

---

**Sgiliau**
**Cyfathrebu**

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i:

- Chwilio am wybodaeth wyddonol berthnasol, cael gafael arni a'i dethol o ystod o ffynonellau.

**Ymholi**
**Cynllunio**

Mae disgyblion yn penderfynu ar y canlynol ac yn eu cyfiawnhau i raddau:

- Y dewis o feini prawf llwyddo.
- Rhagfynegiadau gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol.
- Lle a sut i ddod o hyd i wybodaeth a syniadau perthnasol.

**Datblygu**

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i:

- Defnyddio cyfarpar yn gywir ac yn ddiogel.
- Gwneud cymariaethau a nodi a disgrifio tueddiadau neu batrymau yn y data.
- Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio cysylltiadau rhwng achos ac effaith wrth ddod i gasgliadau.
- Ystyried dehongliadau gwahanol a gwahaniaethu rhwng ffeithiau, credoau a barn gan ddarparu rhesymau a chydnabod rhagfarn.
- Llunio barn ystyriol a gwneud penderfyniadau hyddysg.

**Myfyrio**

Disgyblion yn meddwl am yr hyn y maent wedi'i wneud er mwyn atgyfnerthu dysgu a throsglwyddo sgiliau drwy:


- Ddechrau gwerthuso canlyniadau yn erbyn meini prawf llwyddo.
- Penderfynu a oedd y dull a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus.
- Disgrifio unrhyw addasiadau a wnaed i'r camau gweithredu a gynlluniwyd.
- Awgrymu sut y gellid bod wedi gwella ar hyn.
- Cysylltu'r hyn a ddysgwyd â sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

**Fframwaith Sgiliau:**

Caiff y sgiliau canlynol hefyd eu datblygu drwy'r sioe:


Datblygu Meddwl


Addysg Bersonol a Chymdeithasol


Datblygu cyfathrebiad

## Datblygu Meddwl

**Cynllunio**
- ● Gofyn cwestiynau.
- ● Ysgogi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth blaenorol.
- ● Casglu gwybodaeth.
- ● Canfod y broses/dull a'r strategaeth.
- ● Canfod meini prawf llwyddiant.

**Datblygu**
- ● Cynhyrchu a datblygu syniadau.
- ● Gwerthuso camgymeriadau a chanlyniadau annisgwyl.
- ● Meddwl entrepreneur.
- ● Meddwl am achos ac effaith a dod i gasgliadau.
- ● Meddwl yn rhesymegol a chwilio am batrymau.
- ● Ystyried tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.
- ● Ffurfio barn a gwneud penderfyniadau.
- ● Monitro cynnydd.

**Adlewyrchu**
- ● Adolygu canlyniadau a meini prawf llwyddiant.
- ● Adolygu'r broses/dull.
- ● Gwerthuso'u meddwl a'u dysgu eu hunain.
- ● Cysylltu a meddwl ochrol.

## Datblygu TGCh

**Fframwaith Sgiliau TGCh**
- ○ Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- ○ Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

## Datblygu Cyfathrebiad

**Llefaredd**
- ● Datblygu gwybodaeth a syniadau.
- ● Cyflwyno gwybodaeth a syniadau.

**Darllen**
- ○ Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth.
- ○ Defnyddio strategaethau darllen.
- ○ Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd.

**Ysgrifennu**
- ○ Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- ○ Ysgrifennu'n gywir.

**Sgiliau Cyfathrebu Ehangach**
- ○ Cyfathrebu syniadau ac emosiynau.
- ○ Cyfathrebu gwybodaeth.

## Datblygu Rhif

**Defnyddio Gwybodaeth Fathemategol**
- ○ Defnyddio rhifau.
- ○ Mesur.
- ◍ Casglu gwybodaeth.

**Cyfrifo**
- ○ Defnyddio'r system rifau.
- ○ Defnyddio amrywiaeth o ddulliau.

**Dehongli a Chyflwyno Canfyddiadau**
- ◍ Siarad am y gwaith a'i esbonio.
- ◍ Cymharu data.
- ○ Cofnodi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau.

**Allwedd**
- ● Prif ffocws
- ◍ Ffocws achlysurol
- ○ Dim ffocws wedi'i fwriadu